

Template Letter to Scheme Members

The UK Government has recently announced plans to reform all public sector pensions, including those for firefighters. This follows a court judgment which found that the changes introduced in 2015 discriminated unlawfully against younger firefighters, because only older ones were allowed to remain in their existing schemes.

These plans will require Parliament to pass new legislation, and the Welsh Government will also need to change the detailed scheme rules. But, subject to that, it is clear from the UK Government's announcement that the broad effect on firefighters will probably be as follows.

If your pensionable service started on or after 1 April 2012, then you will not be affected by these changes at all. You will remain a member of the 2015 Scheme, unless you have opted out from membership of that Scheme.

If your pensionable service started before 1 April 2012, and you were aged 45 or more on that date, then you will not be affected for now. You will remain a member of the 1992 or 2007 Scheme until 1 April 2022.

If your pensionable service started before 1 April 2012, and you were aged under 45 on that date, then you will transfer back into the scheme you left – your “legacy scheme” – which will be either the 1992 or 2007 Scheme. This will be with effect from 1 April 2015, and will last until 1 April 2022. During that period you will be subject to the rules of your legacy scheme, including on contributions, pensionable pay and retirement age. This process will be automatic: you do not need to make a claim or take any other action.

On 1 April next year, all firefighters who are not already members of the 2015 Scheme will transfer into that Scheme. There will be no exceptions on the grounds of age, as the courts have found this to be unlawful. All benefits you have accrued in your legacy scheme will be preserved in full.

If your pensionable service started before 1 April 2012, then you will have a choice to make when you retire. You can opt to have your pension and other benefits calculated on the basis that your service between 1 April 2015 and 31 March 2022 was in the 2015 Scheme, or in your legacy scheme. This is because for some firefighters, especially those whose legacy scheme is the 2007 Scheme, the 2015 Scheme may be more beneficial. Shortly before you retire, you will be presented with a detailed statement of your entitlements under each option, to help you choose.

More details about the proposals are available on the Treasury's website at [URL]. These, though, cover all public sector pension schemes in general terms, and do not necessarily describe all of the changes we may need to make to the firefighters' schemes.

There are many more detailed issues to be worked through, including how the new arrangements will relate to matters such as divorce, split pensions and the purchase

Template Letter to Scheme Members

of additional pension or additional years of service. The tax implications of the changes are also complex and not fully resolved, although many scheme members are unlikely to see any change in their tax position.

I will keep you fully informed throughout this process. Your representative bodies also sit on the independent Scheme Advisory Board, which advises the Welsh Government on all pensions issues, including the changes I have described. Please get in touch with me or with your representatives if you have any queries or concerns.

Template Letter to Scheme Members

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau'n ddiweddar i ddiwygio holl bensiynau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y rhai ar gyfer diffoddwyr tân. Mae hyn yn dilyn dyfarniad llys a ganfu fod y newidiadau a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn diffoddwyr tân iau, gan mai dim ond rhai hŷn a oedd yn cael aros yn eu cynlluniau presennol.

Bydd y cynlluniau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Senedd y DU basio deddfwriaeth newydd, a bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd newid rheolau manwl y cynllun. Ond, yn amodol ar hynny, mae'n amlwg o gyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd yr effaith eang ar ddiffoddwyr tân fel a ganlyn, yn ôl pob tebyg.

Os dechreuodd eich gwasanaeth pensiynadwy ar 1 Ebrill 2012 neu ar ôl hynny, yna ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch o gwbl. Byddwch yn dal yn aelod o Gynllun 2015, oni bai eich bod wedi optio allan o fod yn aelod o'r Cynllun hwnnw.

Os dechreuodd eich gwasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ebrill 2012, a chithau'n 45 oed neu'n hŷn ar y dyddiad hwnnw, yna ni fydd hyn yn effeithio arnoch. Byddwch yn dal yn aelod o Gynllun 1992 neu 2007 tan 1 Ebrill 2022.

Os dechreuodd eich gwasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ebrill 2012, a chithau o dan 45 oed ar y dyddiad hwnnw, yna byddwch yn trosglwyddo'n ôl i'r cynllun y gwnaethoch ei adael – eich "cynllun etifeddiaeth" – sef naill ai Cynllun 1992 neu 2007. Bydd hyn yn dod i rym o 1 Ebrill 2015, a bydd yn para tan 1 Ebrill 2022. Yn ystod y cyfnod hwnnw byddwch yn ddarostyngedig i reolau eich cynllun etifeddiaeth, gan gynnwys ar gyfraniadau, tâl pensiynadwy ac oedran ymddeol. Bydd y broses hon yn awtomatig: nid oes angen i chi wneud hawliad na chymryd unrhyw gamau eraill.

Ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, bydd yr holl ddiffoddwyr tân nad ydynt eisoes yn aelodau o Gynllun 2015 yn trosglwyddo i'r Cynllun hwnnw. Ni fydd unrhyw eithriadau ar sail oedran, gan fod y llysoedd wedi canfod bod hyn yn anghyfreithlon. Bydd yr holl fuddion a gronwyd gennych yn eich cynllun etifeddiaeth yn cael eu cadw'n llawn.

Os dechreuodd eich gwasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ebrill 2012, yna bydd gennych ddewis i'w wneud pan fyddwch yn ymddeol. Gallwch ddewis cyfrifo eich pensiwn a'ch buddion eraill ar y sail bod eich gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yng Nghymru 2015, neu yn eich cynllun etifeddiaeth. Y rheswm dros hyn yw y gallai Cynllun 2015 fod yn fwy buddiol i rai diffoddwyr tân, yn enwedig y rhai y mae Cynllun 2007 yn gynllun etifeddiaeth iddynt. Yn fuan cyn i chi ymddeol, byddwch yn cael datganiad manwl o'ch hawliau o dan bob opsiwn, i'ch helpu i ddewis.

Mae rhagor o fanylion am y cynigion ar gael ar wefan y Trysorlys yn [URL]. Mae'r rhain, serch hynny, yn cwmpasu holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn gyffredinol, ac nid ydynt o reidrydd yn disgrifio'r holl newidiadau y gallai fod angen inni eu gwneud i gynlluniau'r diffoddwyr tân.

Mae llawer o faterion manylach i weithio trwyddynt, gan gynnwys sut y bydd y trefniadau newydd yn ymwneud â materion fel ysgariad, pensiynau hollt a phrynu

Template Letter to Scheme Members

pensiwn ychwanegol neu flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth. Mae goblygiadau treth y newidiadau hefyd yn gymhleth ac nid ydynt wedi'u datrys yn llawn, er bod llawer o aelodau'r cynllun yn annhebygol o weld unrhyw newid yn eu sefyllfa dreth.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi drwy gydol y broses hon. Mae eich cyrff cynrychiadol hefyd yn aelod o Fwrdd Cyngori annibynnol y Cynllun, sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar bob mater sy'n ymwneud â phensiynau, gan gynnwys y newidiadau yr wyf wedi'u disgrifio. Cysylltwch â mi neu â'ch cynrychiolwyr os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon.